

Canllaw Rhif 4 i Ddefnyddwyr

Canllaw i Ddechreuwr i Ymchwilio Hanes Tŷ

Mae'n bwysig ichi sylweddoli cyn ichi gychwyn mai proses hir a chymhleth yw olrhain hanes tŷ, sy'n golygu llawer o ymchwil. Gall gymryd amser maith, ac weithiau bydd y ffynonellau yr ydych yn edrych arnynt yn anodd eu deall a'u dehongli. Fodd bynnag, gall olrhain hanes tŷ fod yn broses werthfawr a difyr iawn hefyd.

SUT MAE CYCHWYN?

- Y ffordd orau o gychwyn yw ceisio copi o Weithredoedd yr eiddo, os oes modd. Fel arfer delir y rhain gan berchennog presennol yr eiddo, neu ar eu rhan gan fanc/cymdeithas adeiladu. Os gallwch gael hyd i'r gweithredoedd, dyma fydd y ffynhonnell gwybodaeth orau yn y lle cyntaf.
- Mae'n bosibl bod gan gymdeithasau hanes lleol wybodaeth am yr eiddo, neu y gallant eich cynorthwyo i ddysgu rhagor. Ceir rhestr lawn o gymdeithasau felly yn Sir y Fflint ar wefan Cyngor Sir y Fflint: www.flintshire.gov.uk yn y 'Cyfeiriadur Cymuned'.
- Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) yw'r casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru, o'r aneddiadau cynharaf mewn ogofeydd hyd at ffermydd gwynt yr 21ain ganrif. Os yw'r eiddo y mae gennych ddiddordeb ynddo'n adeilad rhestredig neu o ddiddordeb hanesyddol arbennig, mae'n bosibl bod ganddo wybodaeth amdano. Ei gyfeiriad ar y we yw: www.rcahmw.gov.uk

TYSTIOLAETH BENSARNIOL - Y Tŷ EI HUN

Efallai y byddwch chi'n canfod bod edrych ar y tŷ ei hun, y tu mewn a'r tu allan, yn ffynhonnell tystiolaeth bensaernïol dda am ddyddiad ei godi ac am ychwanegiadau diweddarach. Gall y llyfrau a ganlyn eich helpu i ddehongli'r dystiolaeth hon:

Barley, M.W. The English Farmhouse and Cottage, 1961.

Iredale, D. Discovering this Old House. Shire Publications. 1968.

Mae llyfrau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am bensaerniaeth yn cynnwys:

Barley, M.W. The House and Home. 1963.

Bevan-Evans, M. Farmhouses and Cottages (an introduction to vernacular architecture in Flintshire). Archifdy Sir y Fflint. 1964.

Brunskill, R.W. Illustrated Handbook of Vernacular Architecture. 1970.

Smith, P. Houses of the Welsh Countryside. 1975.

Thirsk, J. (gol.) Agrarian History in England and Wales. Vol. IV, 1500-1640. Pennod XI: "Rural Housing in Wales", gan P. Smith.

TYSTIOLAETH DDOGFENNOL A DDELIR YN ARCHIFDY SIR Y FFLINT

Unwaith y byddwch chi wedi casglu cymaint o wybodaeth gefndirol â phosibl, ac edrych ar y dystiolaeth bensaernïol, mae'n bosibl y byddwch am drefnu apwyntiad yn yr Archifdy i weld unrhyw gofnodion gwreiddiol a ffynonellau eilaidd a all fod gennym. **Sylwer bod y rhan fwyaf o'n casgliad o gofnodion gwreiddiol yn ymwneud â Sir**

y Fflint yn unig. Os yw'r tŷ y mae gennych ddiddordeb ynddo mewn sir arall, bydd angen ichi gysylltu ag Archifdy perthnasol y sir honno.

Dyma ddisgrifiad cryno o rai o'r ffynonellau a ddelir yn Archifdy Sir y Fflint y gellir eu defnyddio wrth ymchwilio hanes tŷ. Mae gennym hefyd Canllawiau Ffynonellau ar wahân sy'n cynnwys rhagor o fanylion am gynnwys rhai o'r ffynonellau hyn, a sut mae defnyddio'r wybodaeth.

FFYNONELLAU EILAIDD

Os yw'r tŷ o ddiddordeb hanesyddol, gall fod cyfeiriad ato mewn llyfrau neu bamffledi hanes lleol a ysgrifennwyd am y plwyf, y pentref neu'r dref lle mae'n sefyll. Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal amrywiaeth o ffynonellau eilaidd gan gynnwys llyfrau a phamffledi, wedi'u trefnu yn ôl pentref/tref/plwyf. Mae'r llyfrau canlynol yn cynnig arweiniad cynhwysfawr i ffynonellau hanes tai:

Alcock, N. Documenting the History of Houses. 2003.

Barratt, N. Tracing the History of your House, A Guide to Sources. 2001.

Harvey, J.H. Sources for the History of Houses. British Records Association. 1974.

Hubbard, E. The Buildings of Wales: Clwyd (Denbighshire and Flintshire). 1986.

Mae'r Archifdy hefyd yn dal cyfres o adroddiadau CADW (Asiantaeth Weithredol Adeiladau hanesyddol Cymru) ar adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Trefnir y rhain yn ôl hen ardaloedd Cyngorau Dosbarth Clwyd, sef Delyn, Alyn a Glannau Dyfrdwy, Rhuddlan, a Wrecsam Maelor. Cewch ofyn am gael gweld y rhain trwy ddefnyddio slip archebu a nodi adroddiadau 'Adeiladau Cofrestredig' yr ardal dan sylw.

FFYNONELLAU CYNRADD

Wrth ichi ymchwilio i hanes tŷ peth doeth yw ichi edrych ymlaen llaw ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau eraill, y ceir manylion amdanynt isod, er mwyn lleoli'r tŷ a chael syniad am ei oed. Wedi hynny gallech edrych ar y cyfrifiad i gael gwybod pwy a oedd yn byw yno rhwng 1841-1901 (gweler rhagor o fanylion isod). Wedi hynny, gallech edrych ar y **mynegai lleoedd** sydd ar gael ar y silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Bydd hwn yn rhestru ffynonellau gwreiddiol sy'n ymwneud ag eiddo ym mhob plwyf. Dylid defnyddio'r mynegai hwn fel canllaw i weld a oes gennym wybodaeth ar yr eiddo sydd o ddiddordeb neilltuol i chi. Cofiwch nodi unrhyw rifau cyfeirnod sydd yn y mynegeion hyn. Dylech edrych wedyn ar y catalogau mwy manwl sydd ar silffoedd yr ystafell chwilio, er mwyn cael syniad cliriach am gynnwys pob eitem ac a yw'n berthnasol i'ch ymchwil. Gellir archebu dogfennau unigol trwy ddefnyddio'r slipiau i geisio dogfennau sydd ar ganol y desgiau yn yr ystafell chwilio. Rhaid ichi archebu pob eitem yn unigol gan ddefnyddio slip ar wahân ar gyfer pob dogfen.

Dyma ddisgrifiad cryno o rai mathau o gofnod a ddelir yn Archifdy Sir y Fflint a allai fod yn ddefnyddiol ichi wrth ymchwilio hanes tŷ:

MAPIAU A CHYNLLUNIAU

Mae **Mapiau Ordnans** ar gael ar gyfer Sir y Fflint, yn dyddio'n ôl i'r argraffiad cyntaf yn 1871. Crëwyd yr argraffiadau diweddarach tua 1897 (ail argraffiad) a 1912 (trydydd argraffiad). Rydym yn dal mapiau ordnans 6 modfedd a 25 modfedd (gyda rhai bylchau). Mae'r mapiau 25 modfedd yn dangos pob adeilad ac felly maent yn ddefnyddiol iawn o ran adnabod eiddo. Mae'r Cynlluniau Trefi sydd gennym ar gyfer

Treffynnon, yr Wyddgrug a'r Rhyl (Graddfa 1:500), dyddiedig 1871, hyd yn oed yn fwy manwl. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau tir manwl o bob adeilad, enwau rhai. A'r defnydd a wneid o adeiladau masnachol a diwydiannol.

Delir **Mapiau'r Degwm a Dosraniadau** ar gyfer pob plwyf yn Sir y Fflint ond fel rheol copïau o'r rhai gwreiddiol ydynt, a ddelir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth (Cyf: NT/M). Fe'u lluniwyd dan Ddeddf Cymudo Degymau 1836. Maent yn dangos yr holl dir mewn plwyf sy'n agored i ddegwm, gan gynnwys tai a thai allan. Rhoddir rhif cyfeirnod unigol i bob eitem o dir/eiddo sy'n cyfateb i'r dosraniad. Cyfeirlyfrau yw dosraniadau, sy'n cysylltu â'r rhifau sydd ar y map degwm (deilir y rhain ar microfilm). Mae'r dosraniadau'n cynnwys manylion: y perchennog; deiliad; enwau caeau; natur yr eiddo; maint; defnydd o'r tir (e.e. tir âr, porfa, dôl); a'r rhent sy'n daladwy am bob llain o dir sy'n agored i ddegwm.

Mapiau a Dyfarniadau Cau Tiroedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chau tir diffaith neu dir comin, neu gorsydd ar aber Afon Dyfrdwy, ac nid ydynt yn ymwneud yn bennaf ag adeiladau. Fodd bynnag, gall y mapiau sydd ynghlwm gynnwys gwybodaeth gynnar am fodolaeth eiddo. Yn Archifdy Sir y Fflint rydym yn dal Dyfarniadau Cau Tiroedd ar gyfer sawl plwyf, dyddiedig 1777-1870 (Cyf: QS/DE/1-27). Mae cofnodion comisiynwyr ar gael hefyd ar gyfer rhai plwyfi ond mae llawer llai o'r rhain wedi goroesi (Cyf: QS/DEM/1-4).

Mapiau Ystadau: Cyhoeddwyd mapiau ystadau preifat o'r 17eg ganrif ymlaen, er nad oes ond cymharol ychydig ar gael ar gyfer ystadau yn Sir y Fflint cyn 1750. Maent yn amrywio'n fawr o ran manylder a chywirdeb, ond maent yn cynnwys y cyfeiriad cynharaf at fodolaeth ac at gynllun eiddo. Weithiau ceir hefyd atodlen sy'n nodi enwau perchnogion a deiliaid. Mae mynegai i fapiau, a mynegai ar wahân i gopïau print o fapiau cynnar, ar gael yn yr ystafell chwilio.

Cynlluniau Rheoli Adeiladau: Rydym hefyd yn dal nifer mawr o gynlluniau rheoli adeiladau ar gyfer Sir y Fflint a all fod yn ddefnyddiol wrth ymchwilio i hanes tŷ. Mae'r rhain i'w cael ymhlith cofnodion yr hen Gyngorau Dosbarth Trefol a Gwledig (Cyf: UD/ a RD/).

Y CYFRIFIAD

Mae cyfrifiadau'n cofnodi pwy a fu'n byw ar bob aelwyd ym Mhrydain. Cynhaliwyd cyfrifiad bob 10 mlynedd er 1801 ond ni roddwyd enwau tan 1841. Ni chynhaliwyd y cyfrifiad yn 1941, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Caeir holl gofnodion y cyfrifiad am 100 mlynedd, ac ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gweld dim ond y cofnodion ar gyfer 1841-1901 (mae cyfrifiad 1911 i gael ei ryddhau ym mis Ionawr 2012 ond mae mynegai bellach ar-lein). Mae'r cyfrifiad yn nodi enwau pawb ar bob aelwyd, eu galwedigaeth ac (o 1851) man eu geni. Gall y cofnodion hyn fod yn ddefnyddiol iawn o ran adnabod oed adeiladau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn fanwl. Fodd bynnag, dylid nodi mai datblygiad cymharol ddiweddar yw rhifau ar dai a'u bod efallai wedi newid dros amser. Felly mae'n bosibl nad yw'r rhifau ar dai yn y cyfrifiad o reidrwydd yn cyfateb i'r rhai modern, sy'n debygol o fod wedi newid wrth i dai ychwanegol gael eu codi.

COFRESTRAU ETHOLIADOL

Mae cofrestrau etholiadol yn gofnodion a gesglir gan awdurdodau lleol. Maent yn rhestru pobl sydd â hawl i fwrw pleidlais mewn etholiad, adeg llunio'r gofrestr. Gellir defnyddio cofrestrau etholiadol i gael gwybod pwy a oedd yn byw mewn cyfeiriad unigol trwy'r blynyddoedd. Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal Cofrestrau Etholiadol am y blynyddoedd 1912 - 2001, er bod bylchau yn y cofrestrau yn ystod y Rhyfel Byd

Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd pan nad oedd cofrestrau'n bod (nid oes gennym gofrestrau ar gyfer 1916-1917, na 1940-1944 a'r dyddiadau rhyngddynt).

GWEITHREDOEDD EIDDO A PHAPURAU CYSYLLTIEDIG

Yn aml iawn bernir mai dyma'r ffynhonnell fwyaf gwerthfawr wrth olrhain hanes tŷ. Gall cyfres o weithredoedd eiddo gofnodi newidiadau o ran perchnogaeth, enw a maint yr eiddo, a'i dyddiad gwreiddiol o bryd i'w gilydd. Mae gan yr Archifdy gasgliad enfawr o weithredoedd, prydlesau a phapurau cysylltiedig o'r 14eg hyd yr 20fed ganrif, y mae llawer ohonynt yn ymwneud ag eiddo ar ystadau mawr yn y sir, megis Mostyn, Gwysanau, Plas Teg a Neuadd Nercwys. Ceir mynegair i weithredoedd a phrydlesau yn y casgliadau hyn yn ôl plwyfi, ac mae'r catalogau'n cynnwys disgrifiad manwl o bob dogfen. Llyfr defnyddiol iawn yw: *Old Title Deeds: A Guide for Local and Family Historians*, gan N. Alcock, 1986, sy'n rhoi disgrifiad manwl o bob categori o weithred eiddo gan esbonio sut i ddehongli'r wybodaeth.

COFNODION TRETHI

Mae asesiadau trethi o wahanol fathau weithiau wedi goroesi yng nghofnodion y plwyfi (Cyf: P/). Gall y rhain gynnwys rhestr o bawb a fu'n ddeiliaid eiddo dros gyfnod hir. Mae casgliadau da yng nghofnodion plwyfi Cilcain, Penarlâg a Llaneurgain, ac mae cofnodion Cilcain yn dyddio'n ôl i 1657. O 1862 hyd 1925, cyfrifoldeb Undebau Cyfraith y Tlodion oedd asesiadau trethi, ac fe'i trosglwyddwyd wedi hynny i'r Cynghorau Dosbarth. Delir cofnodion pob Undeb (Cyf: G/) a'r rhan fwyaf o'r Cynghorau Dosbarth (Cyf: RD/ ac UD/) yn Sir y Fflint yn yr Archifdy, ac mae'r mwyafrif yn cynnwys llyfrau trethi.

Mae cofnodion trethi llywodraeth ganol hefyd yn cynnwys enwau perchnogion a deiliaid eiddo, ond nid ydynt fel rheol yn ymdrin â phob eiddo mewn plwyf. Mae Cymorthdaliadau Lleyg Sir y Fflint, 1544-1628, a chofnodion Trethi Aelwyd Sir y Fflint, 1666 a 1670, ar fficroffilm yn Archifdy Sir y Fflint. Os gellir adnabod eiddo trwy ei ddeiliaid, gall cofnodion trethi'r aelwyd ddatgelu ei faint cymharol yn y plwyf, a rhoi awgrym am nifer yr ystafelloedd.

COFNODION DEDDF CYLLID / PRISIANT

O dan ddeddf Cyllid 1910 bu'n ofynnol llunio map prisiant ar gyfer pob etifeddiant yng Nghymru a Lloegr. Crëwyd llyfr maes neu 'Llyfr Domesday' gyda'r mapiau yn cynnwys gwybodaeth am brisiant pob eiddo, y perchennog, y deiliad, y lleoliad, ei faint a disgrifiad ohono. Gall y cofnodion prisiant hyn (Cyf: VR/), fod yn ddefnyddiol wrth ymchwilio i hanes tŷ, er na fyddant ond yn rhoi gwybodaeth am y cyfnod adeg eu llunio, rhwng 1910 a 1915.

RHESTR GYNNWYS EWYLLYSIAU A PHROFIANNAU

Dogfennau cyfreithiol yw ewyllysiau, sy'n cofnodi dymuniadau rhywun mewn perthynas â'i eiddo yn dilyn marw. Profiant yw'r broses lle penodir yr ysgutor(ion) i ewyllys i weinyddu ystâd yr ymadawedig. Delir llawer o ewyllysiau o Sir y Fflint yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Fodd bynnag, mae gennym rai ewyllysiau yn Archifdy Sir y Fflint, sef copïau'n bennaf a adneuwyd fel rhan o gasgliadau mwy, megis casgliadau ystadau. Gallant fod yn ddefnyddiol os ydynt yn sôn am berchnogaeth tŷ sy'n eiddo neilltuol i deulu, a sut y trosglwyddwyd hwn o genhedlaeth i genhedlaeth. Gall rhestrau cynnwys ddarparu manylion hefyd am y defnydd a wnaed

o bob ystafell ac am y dodrefn a'r eitemau domestig ym mhob un. Ceir mynegai ar wahân i ewyllysiau ar y silffoedd agored yn yr ystafell chwilio.

CYFEIRLYFRAU MASNACH AC ARWEINLYFRAU

Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal cyfres (anghyflawn) o gyfeirlyfrau masnach o 1822-1936. Trefnir y cyfeirlyfrau hyn yn ôl tref/pentref ac maent yn rhestru preswylwyr preifat yn ogystal â masnachwyr megis tafarnwyr, gwerthwyr hetiau neu deilwriaid. Gallant ddangos bod yr eiddo y mae gennych ddiddordeb ynddo wedi cael ei ddefnyddio i ddibenion masnach neu fusnes. Mae cyfeirlyfrau i'r trefi mwyaf ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed weithiau'n cynnwys enwau'r prif dai a'r bobl a oedd yn byw ynddynt e.e. Cydymaith Austen i Lanelwy, 1898.

CATALOGAU ARWERTHIANNAU

Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal nifer mawr o gatalogau arwerthiannau o'r 19eg a'r 20fed ganrif sy'n cynnwys disgrifiadau manwl o eiddo sydd ar werth. Yn aml ceir cynlluniau ynghlwm a phosteri weithiau sy'n hysbysebu'r arwerthiant. Gall rhai da gynnwys darluniau o du mewn yr eiddo. Gall manylion yr arwerthiant gyfeirio at ystâd gyfan, gan gynnwys ffermydd a bythynnod y tenantiaid, ond gwerthid tai unigol yn yr un modd hefyd. Lluniwyd rhestr hir o gatalogau arwerthiannau a manylion yn yr 20fed ganrif gan wahanol werthwyr tai yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a'r cyffiniau fesul tref/plwyf (Cyf: D/DM/760).

PAPURAU NEWYDD

Hysbysebwyd tai ar werth yn rheolaidd mewn papurau newydd lleol o ddiwedd y 18fed ganrif ymlaen, ac weithiau ceir disgrifiad manwl o'r tu mewn. Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal nifer o bapurau newydd lleol ar ficroffilm, yn dyddio'n ôl i ganol y 19eg ganrif.

FFOTOGRAFFAU

Mae Archifdy Sir y Fflint yn dal casgliad o dros 10,000 o ffotograffau a chardiau post, yn dyddio o ganol y 19eg ganrif, ac mae'r nifer yn tyfu o hyd. Ceir mynegai o'r rhain yn ôl plwyf. Mae llawer ohonynt wedi cael eu digideiddio erbyn hyn a gellir edrych arnynt ar gyfrifiaduron yn yr ystafell chwilio, ac mae rhai yn eu ffurf wreiddiol yn unig a rhaid eu harchebu trwy slip archebu. Os gallwch ddod o hyd i ffotograff o'r tŷ y mae gennych ddiddordeb ynddo, gallwch archebu copi - ond cofiwch y bydd yn rhaid inni wirio hawlfraint cyn y gallwn ganiatáu gwneud copïau. Mae'r broses hon yn cymryd amser felly ni ellir gwneud copïau yn y fan a'r lle.

MATHAU NEILLTUOL O DAI

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth bellach ar gael am eiddo sydd yn cael, neu sydd wedi cael, ei ddefnyddio at bwrpas arbennig:

Roedd gofyn i **dai cwrw** gael eu trwyddedu gan y Llys Chwarter, ond nid oes cofnodion o hyn ar gyfer Sir y Fflint. Fodd bynnag, ceir cofnod diddorol iawn o drwyddedau yng nghasgliad Cyngor Sir y Fflint (Cyf: FC/C/4/2/8) - Cofnodion Tai Trwyddedig Llawn a Thai Cwrw, ynghyd â thrwyddedau a ryddhawyd gan yr ynadon i groseriaid, deiliaid tai lluniaeth, dyddiedig 1892 ac 1903.

Trwyddedwyd **tai cwrdd Anghydfurfiol** gan y Llys Chwarter hefyd o 1695-1852. Gellir gweld cofnodion y rhain yn y Coflyfrau (QS/MB) neu yng Nghofnodion y Pwyllgor Trwyddedu (Cyf: QS/AC). Rydym hefyd yn dal amryw gofnodion o gapeli a thai cwrdd Anghydfurfiol (Cyf: N/).

Eiddo elusennau- gellir gweld gwybodaeth yn y Cofnodion gwaddolion Elusennau (1819-1837 a 1897). Mae'r cyfrolau hyn ar gael ar y silffoedd agored yn yr ystafell chwilio ac fe'u trefnir yn ôl plwyf.

Persondai – mae llawer o gofnodion plwyfi (Cyf: P/) yn cynnwys rhestr o diroedd eglwysi a all roi disgrifiad manwl o'r persondy neu'r rheithordy.

Tolltai – gall cofnodion ymddiriedolaethau tolltai gynnwys gwybodaeth fanwl am y rhain. Rydym yn dal cofnodion ymddiriedolaethau tolltai Dosbarthiadau'r Fflint, Treffynnon a Mostyn yn Archifdy Sir y Fflint (Cyf: T/).

Hen Orsafoedd Rheilffordd – mae'n bosibl y bydd gwybodaeth ar gael mewn cynlluniau gorsafoedd a ddelir mewn gwahanol gasgliadau yn Archifdy Sir y Fflint. Bydd angen ichi edrych yn y mynegai pynciau ar gyfer Rheilffyrdd i weld unrhyw wybodaeth berthnasol.

Gwybodaeth Bellach:

Cyn ichi ymweld ag Archifdy Sir y Fflint, fe'ch cynghorir i ddarllen ein 'Canllaw i Ddechreuwy'r ar Ymweld ag Archifdy Sir y Fflint' ([Canllaw Rhif 1 i Ddefnyddwyr](#)). Mae'n cynnwys cyngor ar sut i ymbaratoi ar gyfer eich ymweliad ymlaen llaw, a'r hyn sydd ei angen arnoch. Hefyd mae gennym 'Canllaw i Ddechreuwy'r ar Ddefnyddio'r Ystafell Ymchwil' ([Canllaw Rhif 2 i Ddefnyddwyr](#)), sy'n esbonio beth i'w wneud wrth ichi ymweld â'r Archifdy am y tro cyntaf. Bydd angen ichi wneud apwyntiad i weld y cofnodion gan ein bod yn defnyddio system archebu. Cysylltwch â'r Archifdy os hoffech wybod rhagor neu i wneud apwyntiad: **Ffôn. 01244 532364** neu **e-bost: archives@flintshire.gov.uk**. Cewch fynd at ein safle ar y we hefyd: www.flintshire.gov.uk/archives

Gobeithiwn y bydd yr arweinlyfr hwn o help gyda'ch ymchwil, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i Archifdy Sir y Fflint.